FITZ WARIN, arglwyddi Whittington ac Alderbury yn Sir Amwythig, ac Alveston yn sir Gaerloyw.

Bu'r tiroedd yn Sir Amwythig yn achos anghydfod rhwng y Saeson a'r Cymry hyd gwymp Gwynedd ar law Edward I. Tua diwedd y 12fed ganrif perthynai Maelor Saesneg i Roger de Powys a'i frawd Jonas, ond arglwydd y wlad o gwmpas Whittington oedd FULK FITZ WARIN. Yr oedd gan y Fitz Warin hwn ŵyr o'r un enw ag ef ei hun, a ailfeddiannodd Whittington yn 1204 ar ôl iddo ei ddifreinio dros dro o bob hawl gyfreithiol. Cafodd Llywelyn Fawr gynhorthwy Fulk Fitz Warin pan yn ymladd â'r Saeson yn 1217, ond daeth Fitz Warin i ddealltwriaeth â llywodraeth Harri III erbyn Chwefror 1218. Yn nechrau 1223 enillodd Llywelyn Whittington ac yn 1226 aeth Harri III i Amwythig i drafod helynt Fulk Fitz Warin a'i debyg ymhlith arglwyddi'r gororau. Oherwydd yr elyniaeth rhwng Llywelyn a Fulk trefnwyd oddeutu 1227 i briodi Angharad merch Madog ap Gruffydd â mab Fulk, ond ni bu priodas; nid oes sicrwydd ai gwrthwynebiad Llywelyn a achosodd fethiant y cynllun.

Ar ôl ei fuddugoliaeth yn Lewes ar 14 Mai 1264, ceisiodd Simon de Montfort gynhorthwy Llywelyn ap Gruffydd trwy ganiatáu iddo, ar 22 Mehefin 1265, wasanaeth ffiwdal arglwydd Whittington; yn ôl cytundeb Trefaldwyn, 29 Medi 1267, cysylltwyd y wlad unwaith eto â Chymru.

Cymerodd Fulk Fitz Warin ran flaenllaw yn y rhyfeloedd yn erbyn y Cymry yn niwedd y 13eg ganrif. Siarsiwyd ef i helpu castell y Bere, ger Tywyn, yn 1294, a chafodd aml alwad i gasglu dynion o Sir Amwythig i wasnaethu'r brenin. Daeth i wrthdrawiad â Llywelyn ap Gruffydd yn 1277 o achos tir yn Bauseley, ym Maldwyn, a chyn 25 Chwefror yn y flwyddyn honno priododd Margaret, merch Gruffydd ap Gwenwynwyn a Hawise, ferch John Lestrange. Bu Fulk farw yn 1315 a'i weddw ar 11 Mai 1336.

Bu un WILLIAM FITZ WARIN, a oedd efallai o deulu arglwyddi Whittington, yn flaenllaw yn helyntion Cymreig y flwyddyn 1277; bu'n dyst i gytundeb rhwng Pain de Chaworth a Rhys ap Maredudd, ac yr oedd yn bresennol hefyd adeg cwymp Gruffydd a Chynan, meibion Maredudd ap Owain, Llywelyn eu nai, a Rhys ap Rhys Fychan. Yn y 15fed ganrif cawn hanes un WILLIAM FITZ WARIN, aelod efallai o gangen arall o'r teulu, yn codi gwŷr yng Nghymru i ymosod ar gastell Whittington a'i drechu pan oedd yn nwylo Richard Hankerford, gŵr Elisabeth, chwaer ac etifeddes y Fulk Fitz Warin a fu farw yn 1420.

Awdur

Ivor John Sanders, (1911 - 1991)

Ffynonellau

The Complete Peerage of England, Scotland, Ireland, Great Britain, and the United Kingdom (1887â€“1898), v. 1926

J. Goronwy Edwards, *Calendar of Ancient Correspondence concerning Wales* (1935) a *Littere Wallie* (1940)

R. W. Eyton, *Antiquities of Shropshire* (1854â€“60)

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. I

J. E. Lloyd, *A History of Wales from the Earliest Times to the Edwardian Conquest*(London 1911), Cyf. II

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733054

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Cywiriadau

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Sanders, I. J., (1953). FITZ WARIN, arglwyddi Whittington ac Alderbury yn Sir Amwythig, ac Alveston yn sir Gaerloyw.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 13 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-FITZ-WAR-1130

Copïo'r clipfwrdd

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan
Llywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government